**LC1302**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Ffioedd) (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu ffioedd mewn perthynas ag apeliadau a cheisiadau i dribiwnlysoedd eiddo preswyl. Maent yn gymwys o ran apeliadau a cheisiadau o unrhyw un o'r mathau a bennir yn rheoliad 3 sy'n cael eu gwneud ar ôl 23 Mehefin 2006 o ran mangreoedd yng Nghymru.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Er nad yw'n ofynnol diffinio HMO ac EDMO oherwydd eu bod yn deillio o'r Ddeddf alluogi, byddai o gymorth pe bai troednodiadau ar gael i egluro'r acronymau ac i egluro lle y gellir dod o hyd i ddiffiniadau ohonynt. Gellir eu hychwanegu wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.

Cafodd Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor gyfle i weld drafft cynharach o'r Rheoliadau hyn ac fe wnaethant awgrymu nifer fechan o newidiadau sydd wedi'u cynnwys yn y drafft hwn. Mae angen gwneud un newid canlyniadol arall, sef dileu "yn" yn llinell gyntaf rheoliad 6(2) er mwyn i'r

ddarpariaeth honno ddarllen yn gywir. Gellir gwneud hyn wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 6 Mehefin 2006